| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PARTNERIAETH STRATEGOL PLANT A PHOBL IFANC GWYNEDD |
| **DYDDIAD** | 30 Tachwedd 2009 |
| **TEITL** | **ADRODDIAD Y GRŴP TASG EIRIOLAETH** |
| **PWRPAS** | Cyflwyno canfyddiadau ac argymhellion Grŵp Tasg Eiriolaeth. |
| **ARGYMHELLIAD** | Cymeradwyo'r argymhellion yn Rhan 10 o'r adroddiad. |
| **AWDUR** | Gwawr Davies, Swyddog Strategol Cyfranogi a Hawliau |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Sefydlwyd Grŵp Tasg Eiriolaeth ar 17 Mehefin 2009 gan Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd i adolygu'r ddarpariaeth eiriolaeth yng Ngwynedd.

1.2 Dros gyfnod o bump mis edrychwyd yn fanwl ar y ddarpariaeth eiriolaeth bresennol ac anghenion plant a phobl ifanc o fewn y Sir. Adnabuwyd cryfderau a gwendidau'r gwasanaeth presennol. Cyflwynir un argymhelliad o waith y Grŵp Tasg i'w ystyried a'i weithredu gan Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd.

## 2. Diffinio Eiriolaeth

2.1 Mabwysiadodd y Grŵp Tasg ddiffiniad Barnardo's o'r gair 'eiriolaeth' sef:

*"Lle mae gan bobl lais, sicrhau eu bod yn cael eu clywed,*
*Lle maent yn cael trafferth i siarad, golygai ddarparu cymorth*
*Lle nad oes ganddynt lais, golygai siarad ar eu rhan"*

2.2 Adnabuwyd pedwar prif fodd o ddarparu eiriolaeth i blant a phobl ifanc.

- **Eiriolaeth Ffurfiol** Eiriolaeth a ddarperir drwy weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, megis athrawon, nyrsys, gweithwyr ieuenctid ayb.
- **Eiriolaeth Anffurfiol** Cefnogaeth anffurfiol drwy rieni, gofalwyr, cymdogion ayb.
- **Eiriolaeth gan Gyfoedion** Plant a phobl ifanc yn eiriol ar ran eu cyfoedion, boed rhai wedi eu hyfforddi neu'n gwneud hynny'n anffurfiol.
- **Eiriolaeth Broffesiynol/Annibynnol** Eiriolwyr sydd wedi eu hyfforddi yn broffesiynol i ddelio gyda materion lle nad yw llais y plentyn neu berson yn cael ei glywed.

2.3. Gall eiriolaeth fod yn faes eang iawn a chael ei gynnig drwy amrediad o wasanaethau. Gall cwmpasu'r agweddau isod:

| | |
|---|---|
| Egluro | Ymddatrys |
| Rhoi gwybodaeth | Cynrychioli |
| Llywio | Grymuso |
| Gwrando | Cynghori |
| Cefnogi | Negydu |

2.4 Fe fydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio, yn bennaf, ar ddarpariaeth Eiriolaeth Broffesiynol/Annibynnol oddi fewn i Wynedd. Gan hefyd gadw mewn cof yr angen i ystyried darparu gwasanaeth eiriolaeth gyflawn drwy ddefnydd o'r pedwar modd a restrwyd uchod.

## 3. Sefyllfa Bresennol Gwynedd

3.1 Darperir gwasanaeth Eiriolaeth Broffesiynol/Annibynnol yng Ngwynedd ar hyn o bryd gan ddau ddarparwr annibynnol.

3.2 Comisiynir Tros Gynnal gan Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn i 'ddarparu gwasanaeth eiriolaeth a hawliau plant... i blant a phobl ifanc rhwng 8 a 21 mlwydd oed sy'n derbyn gwasanaeth gan yr Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol y ddau Gyngor (25 oed os mewn addysg bellach)'. Oherwydd diffyg cyllid, mae Adran Gwasanaethau Cyngor Gwynedd wedi gorfod gosod blaenoriaethau i Dros Gynnal o ran darparu gwasanaeth i bobl ifanc sy'n derbyn gofal (wedi eu lleoli'n allsirol ac i'r rhai o fewn y sir), plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, a Phlant mewn Angen. Darperir gwasanaeth Ymwelwyr Annibynnol i Blant Mewn Gofal yn ogystal, ond ni fanteisiodd unrhyw blentyn ar y gwasanaeth yn 2008/09.

3.3 Comisiynir NYAS [*National Youth Advocacy Service*] gan Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd drwy Gronfa Cymorth. Darparai NYAS wasanaeth eiriolaeth yn benodol ar gyfer plant a phobl ifanc 0-25 o fewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf gan ganolbwyntio ar faterion yn codi o fewn meysydd Addysg ac Iechyd.

3.4 Cyllideb

| Darparwr | Cyllideb | Cronfa |
|---|---|---|
| Tros Gynnal | £43,070* | Gwasanaethau Cymdeithasol |
| NYAS | £50,000** | Cymorth |

* Comisiynu ar y cyd gyda Môn yn cyfrannu £34,340 (£22,278 o Gyllid Craidd a £9,836 o Gronfa Loteri Fawr)
** Wedi gostyngiad ym Mawrth 2009 o £79,181

3.5 Nifer o ymholiadau am wasanaeth a nifer o blant a phobl ifanc yn gymwys i dderbyn gwasanaeth*

| Darparwr | 07/08 | | 08/09 | |
|---|---|---|---|---|
| | Ymholiadau | Yn gymwys | Ymholiadau | Yn gymwys |
| Tros Gynnal | 267 | 115 | 149 | 86 |
| NYAS | 204 | 146 | 115 | 103 |

* Gweler Atodiad 1 am ddadansoddiad pellach

3.6 Yn ychwanegol i'r ddarpariaeth eiriolaeth uchod mae darpariaeth o natur Ffurfiol Arbenigol yn cael ei gynnig gan amryw o asiantaethau eraill. Cynigai Gweithredu Dros Blant wasanaeth eiriolaeth un i un i ofalwyr ifanc os nad ydynt yn gymwys i dderbyn gwasanaeth gan Dros Gynnal. Darparai SNAP Cymru wasanaeth fel rhan o'r cynllun cefnogi teuluoedd i rieni a'r plant. Cynigai Cartref Bontnewydd gefnogaeth ac eiriolaeth annibynnol 'Y Bont' i rieni a theuluoedd sydd gyda chysylltiad â Gwasanaethau Cymdeithasol Plant. O fewn cynllun Amser Ni mae Barnardo's yn darparu gwasanaeth cefnogol ac eiriolaeth i blant anabl a gofalwyr maeth. Cynigiai GISDA wasanaeth cefnogaeth ac eiriolaeth i bobl ifanc digartref.

## 4. Gwendidau yn y ddarpariaeth

4.1 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae nifer o bryderon wedi eu mynegi ynglŷn â'r cyllid sydd gan Wasanaethau Cymdeithasol ar gyfer gwasanaeth eiriolaeth i Blant Mewn Gofal ac Mewn Angen. Derbyniai Tros Gynnal lefel uchel iawn o alwadau am y gwasanaeth ac nid oes capasiti i ymateb i'r holl alwadau o fewn yr amser penodedig. Golygai hyn cyfnod aros hir i blant a phobl ifanc bregus sydd yn galw am y gwasanaeth cyn gallent dderbyn cymorth. Nid yw'n bosibl i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol gynyddu'r gyllideb. Nodwyd y byddai angen £20,000 yn ychwanegol i gynnig gwasanaeth cyflawn gan Dros Gynnal.

4.2 Nid oes gwasanaeth eiriolaeth gyffredinol ar gael i blant a phobl ifanc Gwynedd. Gweithreda'r darparwyr presennol ar griteria mynediad penodol, sy'n arwain at sefyllfaoedd lle mae rhai plant a phobl ifanc yn cael eu heithrio o dderbyn y gwasanaeth.

4.3 Bodolai ddau bwynt mynediad ar gyfer plant a phobl ifanc i wasanaeth eiriolaeth, drwy'r ddau ddarparwr. Gall hyn fod yn ffactor negyddol wrth farchnata a hyrwyddo gwasanaeth, yn ogystal â dyblygu adnoddau. Pwysleisid y dylid rhoi'r rhyddid i blentyn neu berson ifanc ddewis eu heiriolwyr ond dylid symleiddio'r broses o ganfod a chysylltu gydag eiriolwr gymaint â phosibl.

## 5. Cyd-destun Cenedlaethol

5.1 Drwy Ddeddf Plant 1989 a Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 ceir sail statudol i gynnig gwasanaeth eiriolaeth i Blant Mewn Angen gan gynnwys plant y gofelir amdanynt a phlant sy'n gadael gofal. Nodir yn glir y dylai'r gwasanaeth fod yn annibynnol ac yn hysbys i'r plant a phobl ifanc. Rhoddir y cyfrifoldeb cyfreithiol ar ysgwyddau awdurdodau lleol dros blant "mewn gofal" i ymddwyn fel "Rhieni Corfforaethol." Cadarnheir hynny yn nogfen '*Pe bai'n blentyn i mi... Arweiniad i gynghorwyr ynghylch bod yn rhiant corfforaethol da i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal'.* Mehefin 2009 gyda chwestiwn allweddol 9 yn pwysleisio angen i ofyn 'Pa gyngor a gwasanaethau eiriolaeth sydd ar gael i blant sy'n derbyn gofal?'

5.2 Ym Mehefin 2009 rhyddhaodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru *Canllaw i'r Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc*. Mae'n nodi diben y Model a'r hyn sy'n ofynnol wrth baratoi ar gyfer Mesurau,

Rheoliadau a Chyfarwyddiadau newydd sydd i fod yn eu lle erbyn 2010 a fydd yn atgyfnerthu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer y Model.

5.3 Pwysleisiai'r angen ar gyfer gwasanaeth eiriolaeth gyffredinol ar gyfer holl blant a phobl ifanc Cymru. Fel ymateb i hyn mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn datblygu 'Gwasanaeth Eiriolaeth a Chyngor Cenedlaethol' a fydd ar gael ar y we neu dros y ffon saith diwrnod yr wythnos i blant a phobl ifanc Cymru. Bydd potensial i gydweithio gyda'r darparwyr lleol ar draws y wlad.

5.4 'Disgwylir i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc hwyluso trefniadau comisiynu rhanbarthol neu isranbarthol, gan gwmpasu nifer o bartneriaid.' Cynhaliwyd Gweithdy Eiriolaeth Gogledd Cymru ar 16 Gorffennaf 2009 o dan arweiniad Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Conwy. Cychwynnwyd trafodaethau traws sirol yn ystod y gweithdy, ac maent yn parhau o dan ofal yr Uned Cefnogi Partneriaethau a Phartneriaeth Plant a Phobl Ifanc Conwy.

5.5 Y model a argymhellir yw gwasanaeth ar ddull 'siop un stop' er mwyn hwyluso mynediad plant a phobl ifanc a sicrhau dealltwriaeth glir i'r rhai sy'n cyfeirio atynt. Sicrhau un gwasanaeth eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc bregus o fewn ardal Partneriaeth; gweithredu a monitro i sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel; cynnwys plant a phobl ifanc wrth gynllunio, gomisiynu a gweithredu gwasanaeth eiriolaeth a sicrhau fframwaith mewn lle i werthuso Gwasanaethau Eiriolaeth.

5.6 Bydd oediad yn unrhyw ganllawiau statudol hyd nes y bydd diwygio'r GIG wedi ei gwblhau.

5.7 Mae'r argymhellion yn y ddogfen hon wedi eu llunio gan ystyried oblygiadau'r Canllawiau. Gweler Atodiad 2 am fodel i ddarparu gwasanaeth eiriolaeth yng Ngwynedd yn cynnwys egwyddorion, sut i ateb yr angen a sut i weithredu.

## 6. Darlun rhanbarthol - Gogledd Cymru

*6.1 Ynys Môn*

Tros Gynnal yn cael ei gomisiynu ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd hyd at Fawrth 2010 i ddarparu eiriolaeth i ddefnyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol oed 8-21. Mae Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc Môn yn derbyn yr egwyddor o gomisiynu ar y cyd ac yn fodlon cynnal trafodaethau i'r dyfodol. Nid yw'r Bartneriaeth yn comisiynu gwasanaethu eiriolaeth dwy Gronfa Cymorth ar hyn o bryd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb** | Cyllid Craidd | £22,278 | Cronfa Loteri Fawr | £9,836 |

Data 2008/09

6.2 Conwy

Comisiynir Tros Gynnal gan Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc Conwy i ddarparu gwasanaeth eiriolaeth i ddefnyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, ac i'r rhai 5-18 oed o fewn gwasanaethau Iechyd ag Addysg. Maent wedi ymestyn cytundeb hyd 2011, ac wedi hynny yn awyddus i gomisiynu yn rhanbarthol, ond yn gweld yr angen am waith pellach.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb** | Cyllid Craidd | £49,163 | Cymorth | £55,032 |

Data 2008/09

6.3 Wrecsam, Sir Ddinbych a Sir y Fflint

Yn cydgomisiynu NYAS ar gyfer gwasanaeth eiriolaeth Plant Mewn Gofal, Plant Mewn Angen a Phlant Anabl. Darperir gwasanaeth eiriolaeth gyffredinol yn dwy o'r siroedd unigol drwy Gronfa Cymorth, sef yn Wrecsam *Second Voice* ar gyfer pobl ifanc 11-25 a *Word on the Street* yn Sir y Fflint i blant a phobl ifanc 0-25.

*Sir y Fflint*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb** | Cyllid Craidd | £27,098 | Cymorth | £31,763 |

*Sir Ddinbych*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb** | Cyllid Craidd | £27,098 | Cymorth | - |

*Wrecsam*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb** | Cyllid Craidd | £27,098 | Cymorth | £27,863 |
| | | | Gwasanaeth Ieuenctid | £31,161 |

Data 2008/09

6.4 Uned Cefnogi Partneriaethau

Mae Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Conwy a Hawis Jones o'r Uned Cefnogi Partneriaethau yn parhau gyda'r gwaith yn deillio o'r Gweithdy Eiriolaeth Gogledd Cymru, a chan edrych ar gytundeb hiraf y gogledd wedi llunio Cynllun Gweithredu ar gyfer pob Sir unigol.

## 7. Barn Plant a Phobl Ifanc Gwynedd

7.1 Cynhaliwyd sesiynau trafod gyda defnyddwyr gwasanaeth Tros Gynnal a NYAS er mwyn canfod eu barn ar y gwasanaeth. Roeddent i gyd yn hapus gyda'r gwasanaeth a dderbyniant, ac yn werthfawrogol o'r gefnogaeth a'r cymorth. Un gwyn a leisiant, a hynny nad oeddent wedi derbyn gwybodaeth am y gwasanaeth yn gynt. Trafodwyd sut y gellir hyrwyddo'r gwasanaeth yn well a chynigwyd yr enw- Gweidda'n Uchel- *Shout Out Loud.*

## 8. Cyllid

8.1 Dyrennir £93,070 [£43,070 gan Wasanaethau Cymdeithasol a £50,000 o Gronfa Cymorth] ar hyn o bryd i ariannu gwasanaeth eiriolaeth i Blant Mewn Gofal, Plant Mewn Angen a phlant a phobl ifanc o fewn Addysg ac Iechyd yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Fodd bynnag nid yw'r swm yma yn ddigonol ar gyfer cynnal y gwasanaeth. Nid oes modd defnyddio'r cynyddu'r gyllideb o Gronfa Cymorth i ariannu gwasanaeth eiriolaeth statudol. Gan nad yw'r swm yn ddigon ar gyfer y gwasanaeth presennol, dylid adnabod y rhwystr cyn ychwanegu at gylch gorchwyl y gwasanaeth.

8.2 Yr unig fodd i ddarparu gwasanaeth eiriolaeth gyffredinol yng Ngwynedd fydd drwy gynyddu'r cyllid. Yng Nghanllaw i'r Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc disgwylir i bartneriaid allweddol yn y maes i gydgyfrannu cyllid ar gyfer ariannu'r gwasanaeth cyffredinol. Yn benodol fe gyfeirir at drosglwyddo gwasanaethu'r Cynghorau Iechyd Cymunedol (CIC) sy'n hwyluso cwynion plant a phobl ifanc i'w gynnwys yn y Model newydd. Gofynnir i bartneriaid eraill megis yr Adran Addysg, Yr Heddlu a Gwasanaeth Ieuenctid i gyfrannu adnoddau i gynnal y gwasanaeth.

## 9. Opsiynau a Drafodwyd gan y Grŵp Tasg

9.1 Opsiwn 1

| Ail gomisiynu gwasanaeth eiriolaeth Gwynedd am gyfnod o flwyddyn a pharhau gyda thrafodaethau rhanbarthol erbyn 2011. Ystyried un ai:<br>a) penodi un darparwr ar gyfer yr holl wasanaeth eiriolaeth Gwynedd<br>b) penodi un darparwr fe pwynt mynediad am y flwyddyn ond parhau gyda'r trefniant o ddau ddarparwr gyda'u harbenigedd gwahanol. | |
|---|---|
| Cryfderau | • Un pwynt mynediad ar gyfer holl blant a phobl ifanc<br>• Cadw cyswllt a pherthynas gyda phlant a phobl ifanc sydd yn defnyddio'r gwasanaeth eisoes. |
| Gwendidau | • Yn rhannol yn cyd-fynd gyda Model y Cynulliad.<br>• Dim gwasanaeth eiriolaeth gyffredinol ar gyfer plant a phobl ifanc Gwynedd am flwyddyn arall. |
| Cyfleon | • Cyfle i'r darparwyr gydweithio yn agosach<br>• Parhau i gynnal trafodaethau yn rhanbarthol |
| Bygythiadau | • Creu diwylliant o 'gystadlu' rhwng y darparwyr<br>• Risg o ddau gyfnod trosglwyddo amharu ar lif y gwasanaeth<br>• Amserlen dynn i newid erbyn Mawrth 2010 |
| **Statws** | **Gwrthodwyd yr opsiwn hwn ar sail nad y byddai'n amharu ar y gwasanaeth yn ormodol a dim ond yn rhannol yn cydymffurfio gyda Chanllaw Model y Cynulliad.** |

9.2 Opsiwn 2

| Comisiynu un gwasanaeth eiriolaeth gyffredinol o'r newydd i Wynedd a Môn erbyn Ebrill 2010 gan barhau gyda'r un dyraniad cyllid. Tendro o'r newydd am un darparwr gan barhau i gynnig eiriolaeth i Blant Mewn Gofal, Plant Mewn Angen a phlant a phobl ifanc o fewn Addysg ac Iechyd yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yng Ngwynedd. | |
|---|---|
| Cryfderau | • Gwasanaeth yn ei le erbyn Ebrill 2010<br>• Parhau gyda'r perthynas cydweithio positif ar draws y ddwy Sir |
| Gwendidau | • Dim gwasanaeth cyffredinol<br>• Dim eiriolaeth gyffredinol yn cael ei ddarparu ym Môn, felly dim cyllid arbennig wedi ei glustnodi ar gyfer y gwasanaeth<br>• Amserlen dynn cyn Mawrth 2010 |
| Cyfleon | • Model unigryw a fydd yn dod i'r afael ag anghenion Gwynedd<br>• Cychwyn cydymffurfio a chanllawiau'r Cynulliad, gellid datblygu'r gwasanaeth yn ôl yr angen yn ddiweddarach<br>• Ffiniau'r Heddlu ayyb yn cyd-fynd â hyn |
| Bygythiadau | • Colli cyfle i weithio ar raddfa fwy yn rhanbarthol<br>• Rhai plant a phobl ifanc yn parhau i golli allan ar wasanaeth |
| **Statws** | **Gwrthodwyd yr opsiwn hwn ar sail nad yw'n cynnig gwasanaeth eiriolaeth gyffredinol, nac yn cynyddu cyllid ar gyfer cynnal y ddarpariaeth bresennol. Ni fydd Ynys Môn yn gallu cynnal trafodaeth tan ar ôl y Nadolig.** |

9.3 Opsiwn 3

| Comisiynu un gwasanaeth eiriolaeth gyffredinol o'r newydd i Wynedd a Môn erbyn Ebrill 2010 gan gynyddu'r cyllid drwy bartneriaid a ffynonellau eraill. Tendro o'r newydd am ddarpariaeth gwasanaeth eiriolaeth ar fodel newydd yn cwmpasu eiriolaeth i blant a phobl ifanc bregus a chyffredinol. Angen Ymrwymiad gan bartneriaid eraill i gyfrannu'n ariannol. | |
|---|---|
| Cryfderau | • Gwasanaeth yn ei le erbyn Ebrill 2010<br>• Parhau gyda'r perthynas cydweithio positif ar draws y ddwy Sir<br>• Cynnig gwasanaeth cyffredinol i holl blant a phobl ifanc Gwynedd |
| Gwendidau | • Dim eiriolaeth gyffredinol yn cael ei ddarparu ym Môn, felly dim cyllid arbennig wedi ei glustnodi ar gyfer y gwasanaeth<br>• Amserlen dynn cyn Mawrth 2010 |
| Cyfleon | • Model unigryw a fydd yn dod i'r afael ag anghenion Gwynedd<br>• Cychwyn cydymffurfio a chanllawiau'r Cynulliad, gellid datblygu'r gwasanaeth yn ôl yr angen yn ddiweddarach<br>• Manteisio ar a chydweithio gyda gwasanaethau presennol<br>• Ffiniau'r Heddlu ayyb yn cyd-fynd â hyn |
| Bygythiadau | • Colli cyfle i weithio ar raddfa fwy yn rhanbarthol |
| **Statws** | **Gwrthodwyd yr opsiwn hwn ar sail nad oes digon o amser i gynllunio, ac nid yw Môn mewn lle i gynnal trafodaethau, ac felly gall gael effaith negyddol ar lif gwasanaeth.** |

## 10. Argymhelliad Grŵp Tasg Eiriolaeth

### Argymhelliad Tymor Byr

10.1 Parhau gyda'r trefniant presennol hyd at Fawrth 2011 er mwyn sicrhau amser i gynllunio a chynnal trafodaethau traws-Sirol.

10.2 Adnabod cyllid ychwanegol ar gyfer cynnal gwasanaeth eiriolaeth statudol drwy Dros Gynnal. Amcangyfrifir yr angen am £20,000 yn ychwanegol er mwyn sicrhau gwasanaeth o ansawdd. Disgynnai'r cyfrifoldeb am y gwasanaeth hwn ar y Cyngor yn sgil ei statws fel Rhiant Corfforaethol, ac felly ni ellid ei ariannu o Gronfa Cymorth.

### Argymhelliad Tymor Hir

10.3 Cynnal trafodaethau traws Sirol gyda golwg ar gomisiynu'n rhanbarthol neu'n isranbarthol naill ai:
- Gwyned a Môn
- Gwynedd, Môn a Chonwy

10.4 Adnabod ffynonellau pellach o gyllid er mwyn cynnal gwasanaeth eiriolaeth gyffredinol yn y tymor hir. (gweler 8.2)

10.5 Gwneud gwaith pellach yn mapio'r angen am wasanaeth eiriolaeth, y rhwystrau sy'n bodoli a chostio'r gwasanaeth.

10.6 Trosglwyddo'r holl drefniadau comisiynu i Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd a chydymffurfio gyda Chanllaw i'r Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

10.7 Comisiynu gwasanaeth eiriolaeth ar fodel newydd yn Ebrill 2011 gan sicrhau cysondeb yn y gwasanaeth yn ystod cyfnod trosglwyddo.

10.8 Dadansoddiad CGCB

| | |
|---|---|
| Cryfderau | • Gwasanaeth yn parhau yn ddi-dor am flwyddyn<br>• Un cyfnod trosglwyddo yn 2011<br>• Amser i gynllunio gwasanaeth effeithiol a cynhwysfawr yn cael ei ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc Gwynedd yn y tymor hir |
| Gwendidau | • Dim gwasanaeth eiriolaeth gyffredinol ar gyfer plant a phobl ifanc Gwynedd am flwyddyn arall |
| Cyfleon | • Amser i gynllunio model a chanoli adnoddau yn rhanbarthol<br>• Cyfle i rannu arbenigedd ar draws ffiniau<br>• Cyfuno adnoddau a chyllid ychwanegol i ddarparu gwasanaeth o safon uchel |
| Bygythiadau | • Yn ddibynnol ar drafodaethau gydag Ynys Môn a Chonwy |

## Atodiad 1
## Trosolwg o ddefnyddwyr gwasanaeth Eiriolaeth

**NYAS**

Ymholiadau a nifer yn gymwys i dderbyn gwasanaeth

| 07/08 | | 08/09 | |
|---|---|---|---|
| Ymholiad | Yn gymwys | Ymholiad | Yn gymwys |
| 204 | 146 | 115 | 103 |

Materion a drafodwyd:

| Materion | 07/08 | 08/09 |
|---|---|---|
| Toriad mewn perthynas deuluol | 111 | 14 |
| Cymorth i lenwi ffurflenni cyfeirio at asiantaethau | 50 | 10 |
| Cymorth i ysgrifennu llythyr | 60 | 0 |
| Problemau lletya | 45 | 4 |
| Angen llais i wrando | 146 | 12 |
| Angen llais i siarad ar eu rhan | 146 | 11 |
| Problemau gydag Addysg | 50 | 24 |
| Angen rhywun i roi gwybodaeth | 7 | 7 |
| Problemau Emosiynol | 17 | 21 |
| Bwlio | 10 | |
| Cyfeirio i wasanaethau eraill | 69 | |
| Arall | 20 | |

Oed defnyddwyr

| Oed | 07/08 | 08/09 |
|---|---|---|
| O dan 3 | 12 | 0 |
| 4-10 | 23 | 10 |
| 11-18 | 89 | 75 |
| 19-25 | 22 | 18 |

Rhyw

| | 07/08 | 08/09 |
|---|---|---|
| Gwryw | 60 | 47 |
| Benyw | 84 | 56 |

Cyfeiriwyd gan

| Asiantaeth | 07/08 | 08/09 |
|---|---|---|
| Hunan gyfeiriad | 5 | 52 |
| Teulu a chyfeillion | 17 | 26 |
| Addysg | 18 | 18 |
| Iechyd | 6 | 8 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 2 | 0 |
| Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | 2 | 9 |
| GIDSA/tai | 3 | 0 |
| Cymunedau'n Gyntaf | 0 | 2 |

**TROS GYNNAL**

Ymholiadau a nifer yn gymwys i dderbyn gwasanaeth

| 07/08 | | 08/09 | |
|---|---|---|---|
| Ymholiad | Yn gymwys | Ymholiad | Yn gymwys |
| 267 | 115 | 149 | 86 |

Nifer o blant wedi eu lleoli yn allsirol 08/09 11 [16 ymweliad]

| Materion | 07/08 | 08/09 |
|---|---|---|
| Addysg | 14 | 18 |
| Gwaharddiad Tymor Penodol | 0 | 1 |
| Cymorth mewn Adolygiad a/neu Gynhadledd Achos/ Cynllunio | 69 | 48 |
| Trefniadau Gadael Gofal | 2 | 2 |
| Materion gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol | 11 | 12 |
| Gwneud Cwyn | 3 | 4 |
| Cymorth gydag ysgrifennu llythyr | 26 | 18 |
| Grŵp Craidd | 8 | - |
| Cysylltiad â brawd/chwaer/teulu | 9 | 7 |
| Cymorth gydag ymddangosiad llys/ Cyfreithiwr/Achosion cyfreithiol | 13 | 4 |
| Mater yn ymwneud â Lleoliad | 11 | 7 |
| Amddiffyn Plant | 1 | 3 |
| Cyfarfod Cynllunio Iechyd Meddwl | 0 | 1 |
| Cyfarfod Cychwynnol | 22 | - |
| Arall | 8 | - |

Oed defnyddwyr

| Oed | 07/08 | 08/09 |
|---|---|---|
| O dan 4 | 14 | 15 |
| 5-6 | 12 | 7 |
| 7-8 | 28 | 18 |
| 9-10 | 33 | 12 |
| 11-12 | 58 | 17 |
| 13-14 | 52 | 35 |
| 15-16 | 46 | 22 |
| 17-18 | 23 | 12 |
| 19+ | 1 | 3 |
| Anhysbys | - | 8 |

Rhyw

| | 07/08 | 08/09 |
|---|---|---|
| Gwryw | 170 | 87 |
| Benyw | 119 | 62 |

Cyfeiriwyd gan

| Asiantaeth | 07/08 | 08/09 |
|---|---|---|
| Hunan gyfeiriad | 30 | 15 |
| Rhiant/Perthynas | 6 | 29 |
| Gweithiwr Cymdeithasol | 201 | 94 |
| Rhiant Maeth | 10 | 3 |
| Tîm Cyfiawnder Ieuenctid | 0 | 1 |
| CWLWM | 4 | 0 |
| GAP | 2 | 0 |
| CAMHS | 3 | 2 |
| FCA | 3 | 0 |
| Panel Llety | 6 | 0 |
| Cartref Preswyl | 1 | 1 |
| Nyrs Gymunedol/Nyrs Penodedig | 1 | 3 |
| Cyfreithiwr | 0 | 1 |

**Atodiad 2**

**Model ar Gyfer Darparu Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc yng Ngwynedd**

## 1. Gwasanaeth Cyffredinol

1.1 Gwasanaeth ar gael er gyfer holl blant a phobl ifanc Gwynedd, beth bynnag fo'u sefyllfa neu eu hanghenion.

1.2 Un pwynt mynediad ar gyfer y gwasanaeth, a fydd yn hygyrch ac yn hysbys i holl blant a phobl ifanc Gwynedd. Beth bynnag fo'r strwythur yn dilyn cyswllt cychwynnol y plentyn, dylid sicrhau bod y plentyn yn glir ynglŷn â phwy sydd angen iddynt gysylltu â hwy a sut.

## 2. Ateb yr angen

2.1 Cydnabod fod gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl i fynediad at wasanaeth eiriolaeth. Ystyried fod gan bob achos lefel gwahanol o anghenion.

2.2 Drwy edrych y pedwar lefel o angen ar gyfer plant a phobl ifanc, gellir gweld haenau o anghenion plant a phobl ifanc sydd yn defnyddio gwasanaethau eiriolaeth.
Lefel 1 Holl blant a phobl ifanc
Lefel 2 Plant a phobl ifanc sydd yn agored i niwed
Lefel 3 Plant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth neu mewn perygl o ddioddef niwed
Lefel 4 Plant a phobl ifanc gydag anghenion cymhleth neu lym


2.3 Gan edrych ar bedwar modd o ddarparu eiriolaeth drwy adnoddau presennol Ngwynedd, dylai'r model gwmpasu'r canlynol ar draws y sir.

- Tîm o eiriolwyr proffesiynol
- Tîm o eiriolwyr gwirfoddol
- Cefnogi Gweithwyr Proffesiynol yn sgil eu dyletswyddau fel eiriolwyr [ee gweithwyr ieuenctid, athrawon ayb]
- Tîm o eiriolwyr cyfoed [wedi eu lleoli o fewn yr ysgolion o dan hyfforddiant]

2.4 Gwelir lefelau gwahanol o angen mewn sefyllfaoedd unigol, h.y. o fewn rhai achosion fe fydd anghenion mwy dwys nag eraill. Gellid selio'r model ar yr egwyddor o ymateb i anghenion pob achos yn unigol gan wneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael. Gwasanaeth sydd yn gweithredu ar ffurf haenau.

2.5 Fel y gwelir yn Niagram 1, gellid yn fras cysylltu lefelau anghenion (2.2) a thîm darparu gwasanaeth (2.3) gyda'i gilydd er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau, a chanfod datrysiad gorau i unrhyw sefyllfa. Fel hyn gellid cynnig gwasanaeth eiriolaeth gyffredinol, sydd yn cydweithio o fewn y strwythurau cymorth ieuenctid sydd ar gael eisoes.

**Diagram 1**




2.6 Yn dilyn cyfarfod cychwynnol, cynnal trafodaeth gyda'r plentyn neu berson ifanc i ganfod eu dewis o eiriolwr, a'u bod yn ymwybodol y gellid newid eiriolwr unrhyw bryd. Mewn achosion dwys, lle mae gofyn am eiriolwr proffesiynol, ni ellid cynnig yr un dewis ond fe fydd gan y plentyn opsiwn i ddewis neu newid ei eiriolwr heb orfod rhoi rheswm.

2.7 Dylid sicrhau bod gwasanaeth i blant a phobl ifanc mwyaf bregus cymdeithas (lefel 3 a 4) yn cael ei ddiogelu gan sicrhau adnoddau digonol wedi ei glustnodi ar gyfer ateb eu hanghenion. Eto gwelir yn Niagram 1 sut y bydd dyraniad cyllid yn adlewyrchu'r blaenoriaethu yma.

## 3. Dull gweithredu

3.1 Wrth lunio model dylid ystyried cwmpasu'r holl agweddau isod ynddo, yn enwedig wrth gysidro rôl y tîm darparu (2.4). Gellid eto plethu'r agweddau gwahanol i swyddogaethau o fewn y tîm, wrth gwrs mae rhai ffiniau yn gorgyffwrdd.

| | | |
|---|---|---|
| **Eiriolwyr Proffesiynol** | Ymddatrys, Cynrychioli | Cynghori Cefnogi |
| **Eiriolwyr Gwirfoddol** | Negydu, Llywio | |
| **Gweithwyr Proffesiynol** | Gwrando, Grymuso | |
| **Eiriolwyr Cyfoed** | Egluro, Rhoi gwybodaeth | |

3.2 Dylid ystyried yr amrediad o ddarparwyr presennol sydd yn cynnig yr agweddau uchod yng Ngwynedd. Disgwylir i'r gwasanaeth eiriolaeth

gydweithio'n agos gydag asiantaethau eraill i fanteisio ar yr adnoddau ac osgoi dyblygu gwaith. Gellid cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant ar sut i eiriol a chefnogaeth. Gwasanaethau megis; Gwynedd-Ni, CAMHS, Gwasanaeth Ieuenctid, GISDA, Gweithwyr Cefnogol a'r Gwasanaeth Cymdeithasol, Amser Ni Barnardo's, Gweithredu Dros Blant a llawer eraill.

3.3 Bydd disgwyl i'r gwasanaeth yma weithredu fel Ymwelwyr Annibynnol. Gan gadw cyswllt gyda'r plant a phobl ifanc sydd mewn gofal, a bod ar gael i'w cefnogi yn ôl eu hanghenion unigol.

3.4 Gofynnir i'r gwasanaeth eiriolaeth weithio'n agos gyda Cwynion-Ni fel adnodd ychwanegol i ddarparu gwasanaeth cefnogi i blant a phobl ifanc sydd eisio cymorth i gael gwrandawiad. Gwasanaeth cwynion yw Cwynion Ni a fydd yn hwyluso mynediad plant a phobl ifanc i gwyno neu gyflwyno sylwad ynglŷn â'r gwasanaethau a ddefnyddir ganddynt yng Ngwynedd.

3.5 Bydd angen codi ymwybyddiaeth o fewn gweithlu Gwynedd o'r gwasanaeth eiriolaeth gan annog gweithwyr proffesiynol i hyrwyddo'r gwasanaeth a'i farchnata i blant a phobl ifanc. Gellid cynnig y cyfle i weithwyr proffesiynol wirfoddoli fel rhan o'r gwasanaeth er mwyn ehangu eu gorwelion a chynnig mwy o ddewis i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Gweler Diagram 2 am fraslun o strwythur personél gwasanaeth eiriolaeth o dan y model yma.

**Arfer dda**
Gwasanaethau Eiriolaeth Cyffredinol Wrecsam a Sir y Fflint gyda cytundeb â'r Llywodraeth Leol i rhyddhau staff am 5-10 niwrnod y flwyddyn i wirfoddoli fel eiriolwyr.

**Diagram 2**

<table>
<tr><td rowspan="2">Trefniadau Rheolaethol</td><td colspan="4">Rheoli, Monitro a sicrhau ansawdd</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="3">Datblygu gweithlu, recriwtio, hyfforddi, codi ymwybyddiaeth cefnogi</td></tr>
<tr><td>Eiriolaeth Uniongyrchol</td><td>Eiriolwyr Ffurfiol/ Arbenigol</td><td>Gweithwyr Proffesiynol</td><td>Eiriolwyr Gwirfoddol</td><td>Eiriolwyr Cyfoed</td></tr>
</table>

## 4. Cynnwys Plant a Phobl Ifanc

4.1 Bydd y model yma yn cynnwys plant a phobl ifanc ym mhob cam o ddatblygu'r gwasanaeth, gan ganolbwyntio ar banel defnyddwyr i gychwyn. Gwrandewir ar eu barn a disgwylir iddynt gefnogi a darparu cymorth wrth ddatblygu a marchnata'r gwasanaeth.

4.2 O fewn y tîm darparu mae rôl i blant a phobl ifanc gael eu hyfforddi a gweithredu fel eiriolwyr cyfoed. Gall rhai plant a phobl ifanc fod yn fwy cyffyrddus i siarad â pherson yr un oed, ond dylid sicrhau bod strwythur cefnogaeth gadarn mewn lle ar gyfer yr eiriolwyr cyfoed.

## 5. Cyllid

5.1 Yn unol â Chanllaw i'r Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc y Cynulliad 'bydd angen i asiantaethau comisiynu ym mhob Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc gytuno i uno cyllidebau ar gyfer gwasanaeth eiriolaeth gyda phartneriaid.' Gofynnir i bartneriaid gyfuno cyllidebau er mwyn darparu'r gwasanaeth cyffredinol.

## 6. Monitro ac Ansawdd

6.1 Mae pecyn hyfforddiant 'Eiriolaeth Annibynnol gyda Phlant a Phobl Ifanc' yn cael ei ddatblygu gan grŵp aml asiantaeth. Bydd hwn yn cael ei readru ar lefel lleol drwy amrywiol asiantaethau.

6.2 Mae'r Adran Eiriolaeth yn ailymweld a'r Safonau Eiriolaeth Genedlaethol, ac fe rhaid sicrhau bod prosesau comisiynu, monitro a darparu yn cydymffurfio a'r Safonau.

6.3 Dylid hwyluso prosesau comisiynu a monitro wrth bennu un corff, sef Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc i arwain drwy gydol y broses er mwyn sicrhau cysondeb a chydweithio effeithiol ac annibyniaeth.

## 7. Gwerthuso Gwasanaethau Eiriolaeth

7.1 Yn dilyn bob achos bydd yr eiriolwr neu eiriolwr arall yn cynnal sesiwn werthuso gyda'r plentyn neu berson ifanc i ganfod eu barn ynglŷn â'r gwasanaeth, a sicrhau y bydd y negeseuon a dderbynnir yn helpu llunio'r gwasanaeth a gynigir.

7.2 Sicrhau fframwaith mewn lle drwy ddefnyddio 'Gofalu am Ganlyniadau' i werthuso'r gwasanaeth yn rheolaidd.

7.3 Caiff y Gwasanaeth Eiriolaeth Arbenigol Integredig ar gyfer plant a phobl ifanc bregus ei reoleiddio yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000 a'i arolygu gan Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Y bwriad ydyw i'r Uned Eiriolaeth drafod gyda chyrff rheoliadol cenedlaethol eraill iddynt gynnwys ystyried effeithiolrwydd gwasanaethau eiriolaeth Mynediad Agored a'r canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc yn eu fframwaith cyffredin ar gyfer arolygu.

7.4 Bydd disgwyl i'r model yng Ngwynedd dderbyn logo Clywed o fewn blwyddyn i'w sefydlu.